# Ysgrifennu

Mae marciau syml yn dod cyn llythrennau, rhifau neu luniau. Mae creu marciau'n ddechreuad gwych o ran ysgrifennu a chreu celf. Mae plant yn dysgu sut i fynegi eu hunain a phortreadu'r byd o'u cwmpas drwy wneud marciau. Felly, gwnewch farciau ac ewch ati i gael hwyl ar yr un pryd.

Mae datblygu sgiliau echddygol manwl eich plentyn yn rhoi sylfaen dda i allu ysgrifennu. Mae hyn oherwydd bod sgiliau echddygol manwl yn galluogi plentyn i ddal pensil yn gadarn wrth ysgrifennu.

Mae edafu hefyd yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau echddygol manwl, boed hynny gan ddefnyddio gleiniau neu fotymau, neu drwy greu mwclis o basta sych.

Mae gwehyddu gwlân o amgylch templed cardbord neu wehyddu stripiau o gerdyn trwy ei gilydd hefyd yn weithgareddau syml eraill y gallech eu gwneud yn y cartref.

Neu chwarae â theganau adeiladu llaw, teganau bach a chymryd rhan mewn gweithgareddau torri a gludo.

Anogwch eich plentyn i arbrofi'n hyderus a bydd hyn yn baratoad da ar gyfer yr adeg pan fydd y marciau hynny'n dechrau ffurfio llythrennau a rhifau pan fydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol.


## GWNEUD MARCIAU YN YR AWYR AGORED

- Defnyddiwch frwshis neu boteli y gallwch eu gwasgu i 'baentio' â dŵr ar batio, ffens neu wal.
- Tynnwch lun mewn tywod llaith neu fwd gan ddefnyddio brigau.
- Tasgwch feiciau a cheir tegan drwy bwll i adael ôl yr olwynion.
- Tynnwch luniau ar darmac gan ddefnyddio sialc trwchus.

## GWNEUD MARCIAU ANNIBEN

- Cymysgwch halen bwrdd a gliter mewn clawr tun bisgedi neu hambwrdd ac yna gwnewch siapiau llythrennau a phatrymau yn y 'dwst disglair'.
- Defnyddiwch eich bysedd i dynnu llun mewn hambwrdd o flawd, ewyn eillio neu 'glŵp' (blawd corn a dŵr)

## GWNEUD MARCIAU HEB ANNIBENDOD



- Byrddau darlunio magnetig a matiau tynnu llun â dŵr

## RHEOLI PENSIL

Wrth i blant agosáu at oedran ysgol, mae'n debygol y byddwch yn sylwi ar eu marciau'n dod yn fwy pwrpasol. Nawr yw'r amser i annog eich plentyn i afael mewn pensil gan ddefnyddio tri bys a chyflwyno gweithgareddau i'w helpu i ddysgu sut i reoli pensil. Rhowch gyfle iddynt roi cynnig ar esgus ysgrifennu eu hunain, efallai trwy sgriblo ar waelod eich rhestr siopa.

BBC BITESIZE – How to help your child improve their fine motor skills.

# Darllen



Nid yw athrawon yn disgwyl i blant wybod y wyddor na'u bod yn gallu ysgrifennu brawddegau pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.

- Anogwch eich plentyn i feithrin diddordeb mewn llyfrau a mathau eraill o destun, er enghraifft, comics, cardiau post, labeli a phosteri.
- Gallech ymweld â'ch llyfrgell leol ac anogwch eich plentyn i ddewis llyfrau yr hoffent wrando arnynt ac edrych arnynt.
- Ystyriwch ddarllen llyfrau am ddechrau yn yr ysgol gyda'ch plentyn. Defnyddiwch y rhain i drafod yr holl weithgareddau hwyliog y bydd yn eu gwneud yn yr ysgol.
- Gallwch hefyd feithrin diddordeb mewn darllen drwy ddarllen hysbysiadau a labeli pan fyddwch oddi cartref neu ddarllen cardiau cyfarch oddi wrth deulu a ffrindiau.



- Gall helfeydd trysor fod yn ffordd hwyliog o gael eich plentyn i adnabod ei enw – ysgrifennwch enw eich plentyn ar ddarnau o bapur a'u cuddio o gwmpas y tŷ. Anogwch eich plentyn i ddod o hyd i bob un ohonynt.

## AWGRYMIADAU AR GYFER DARLLEN LLYFRAU GYDA'CH GILYDD

### Darllenwch lyfrau gyda'ch gilydd oherwydd mae'n...

- Helpu i greu perthynas glòs rhwng rhieni a phlant
- Cyflwyno plant i gelf drwy'r darluniau
- Gwella sgiliau gwrando plant
- Cyflwyno plant i amrywiaeth eang o brofiadau
- Helpu i baratoi plant ar gyfer dysgu darllen
- Gwella a chyfoethogi ansawdd bywydau plant
- Rhoi hwyl a mwynhad i blant ac i oedolion.



### Pryd y gallwch rannu llyfrau?

- Neilltuwch amser arbennig bob dydd, er enghraifft amser cael cyntun, amser gwely, neu ar ôl prydau bwyd
- Rhannwch lyfrau pan fyddwch chi a'ch plentyn yn teimlo'n hamddenol
- Cyfyngwch ar yr amser o ddarllen llyfr gyda'ch gilydd os yw eich plentyn yn mynd yn ffyslyd neu'n aflonyddu
- Manteisiwch ar amseroedd "aros" i rannu llyfrau e.e. ar deithiau, yn swyddfa'r meddyg, wrth aros mewn rhes mewn siop
- Cysurwch blentyn sy'n sâl neu'n flinedig

## Sut mae rhannu llyfrau?

- Dewch o hyd i le cyfforddus i eistedd.
- Adroddwch neu canwch rigymau o'ch hoff lyfrau.
- Diffoddwch bethau a allai dynnu sylw e.e. teledu, radio neu stereo
- Daliwch y llyfr fel bod eich plentyn yn gallu gweld y tudalennau'n glir. Cyflwynwch eiriau fel 'Teitl', 'Awdur', 'cymeriad', 'darlunydd'.
- Sicrhewch eich bod yn cynnwys eich plentyn trwy ofyn iddo/iddi chwilio am wrthrychau, siarad am y lluniau, neu ailadrodd geiriau cyffredin e.e. Pwy/beth allwch chi ei weld?
    - Ble mae 'Fred'? (fferm, traeth, parc ac ati)
    - Beth allwch chi ei weld sy'n felyn?
- Darllenwch gan ddangos mynegiant.
- Amrywiwch eich cyflymdra wrth ddarllen, yn araf neu'n gyflym
- Gofynnwch i'ch plentyn ddewis llyfrau i'w darllen.
- Ailddarllenwch hoff lyfrau eich plentyn pryd bynnag y byddant yn gofyn ichi wneud hynny.

BBC BITESSIZE – Top tips for reading with your child.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council